**Rhif: WG38411**

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd

Briffio prosiect ac ymgysylltu

Dyddiad cyhoeddi: 2 Gorffennaf 2019
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 7 Hydref 2019

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Chynghorau Castell-nedd Port Talbot a Phowys i ddatblygu cynigion ar gyfer Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd ar safle glo brig Nant Helen a safle golchfa lo Onllwyn ar flaenau Cwm Dulais. Byddai'r cynigion yn rhan ychwanegol bwysig o strategaeth adnewyddu'r safle, gan weithredu fel sbardun i arloesi, buddsoddi a thwf y diwydiant rheilffyrdd yng Nghymru, y Deyrnas Unedig yn ehangach ac yn rhyngwladol. |
| **Sut i ymateb** | Gallwch ein hysbysu ni am eich sylwadau ynghylch y cynigion sy'n cael eu datblygu trwy lenwi a dychwelyd yr holiadur ar-lein yn https://gov.wales/canolfan-fyd-eang-rhagoriaeth-rheilffyrdd. Neu gallwch chi lawrlwytho'r holiadur ac anfon copi caled wedi'i lenwi at 'Freepost GRASSHOPPER CONSULT' (nid oes angen stamp nac unrhyw gyfeiriad ychwanegol). |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.** |
| **Manylion cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Cyfeiriad: 'Freepost GRASSHOPPER CONSULT' (nid oes angen stamp nac unrhyw gyfeiriad ychwanegol).<br><br>e-bost: ymgynghoriad@grasshopper-comms.co.uk<br><br>rhif ffôn: 01639 865515 |

## Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd: Briffio prosiect ac ymgysylltu

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Chynghorau Castell-nedd Port Talbot a Phowys i ddatblygu cynigion ar gyfer Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd ar safle glo brig Nant Helen a golchfa lo Onllwyn ar flaenau Cwm Dulais. Byddai'r cynigion yn rhan ychwanegol bwysig o strategaeth adnewyddu'r safle, gan weithredu fel sbardun i arloesi, buddsoddi a thwf y diwydiant rheilffyrdd yng Nghymru, y Deyrnas Unedig yn ehangach ac yn rhyngwladol.

Mae gwaith ymgysylltu cynhwysfawr ag ystod eang o randdeiliaid yn hanfodol i ddatblygu'r cynigion gorau posib, ac mewn ymateb i gymhlethdodau'r prosiect, rydym yn ymgymryd â gwaith ymgysylltu fesul cam i alluogi preswylwyr lleol a rhanddeiliaid i helpu i lywio'r uwchgynllun ar gyfer y safle.

Fel rhan o ddatblygu cynllun busnes ar gyfer y prosiect, rydym wedi cynnal gwaith 'profi marchnad sylfaenol' helaeth â rhanddeiliaid yn y diwydiant rheilffyrdd. Mae hyn wedi ein galluogi i archwilio'r angen busnes a chynnwys cyngor ac adborth technegol yn y dyluniad cychwynnol. Rydym yn parhau i drafod ein cynlluniau cychwynnol â'r diwydiant rheilffyrdd wrth inni geisio sefydlu prosiect dichonadwy a chynaliadwy y gellir buddsoddi ynddo sy'n gallu mynd rhagddo, o drafodaethau i ddylunio a chyflawni.

Bellach, rydym yn cynnal ymgynghoriad cynnar â phreswylwyr ac ystod eang o randdeiliaid lleol a chymunedol i ystyried y cyfleoedd a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r dyluniad cychwynnol. Bydd hyn yn helpu i nodi sut y gallwn fwyafu'r buddion cymdeithasol ac economaidd a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd ar yr un pryd. Mae'r ddogfen friffio ac ymgysylltu hon yn darparu gwybodaeth i lywio'r broses a'ch helpu i gyflwyno sylwadau gwybodus am y cynigion sydd wrthi'n cael eu datblygu.

Caiff yr holl sylwadau ac adborth eu hadolygu a'u hystyried wrth inni ddatblygu'r cynllun a ffefrir, a bydd ymgynghoriad statudol ynghylch y cynllun hwnnw cyn cwblhau'r cynigion a'u cyflwyno i gael caniatâd cynllunio.

Gellir gweld yr amserlen ar gyfer y rhaglen ehangach a gwaith ymgysylltu/ymgynghori ychwanegol yn adran camau nesaf y ddogfen hon.

## Y safle


Caiff y Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd ei lleoli ar safle glo brig a golchfa lo Nant Helen ac Onllwyn, sy'n cael ei weithredu gan Celtic Energy ar hyn o bryd. Lleolir y safle yng Nghwm Dulais ar y ffin rhwng Castell-nedd Port Talbot a Phowys, ac mae'r ffin â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i'r gogledd.

Disgwylir y bydd Celtic Energy yn dod â gweithrediadau glo brig i ben ar safle Nant Helen erbyn 2021, a bryd hynny, bydd yn rhaid adfer y safle yn unol â rhwymedigaethau statudol a bennwyd ac y rhoddwyd caniatâd iddynt gan Gyngor Sir Powys.

Mae tir comin sylweddol yno a bydd yn rhaid ystyried buddiannau tir y cominwyr o fewn y tir y mae Celtic Energy yn berchen arno. Bydd yn rhaid mynd i'r afael â'r buddiannau hynny drwy ddylunio'r prosiect a chamau lliniaru.

Gellir rhannu'r safle'n ddau lecyn gwahanol. Mae'r brif lecyn yn gysylltiedig â'r safle glo brig , lle caiff y glo ei gloddio o'r ddaear, ac mae'r llecyn eilaidd yn gysylltiedig â'r olchfa, lle caiff y glo ei lanhau a'i baratoi i'w ddosbarthu.

*Delwedd:* Ffin y safle




Tir llwyd yw'r safle yn bennaf (wedi'i ddatblygu yn y gorffennol) a cheir ychydig o dir glas (heb ei ddatblygu) yno.


Mae topograffeg y safle yn golygu nad yw'r gweithrediadau cloddio presennol yn weladwy iawn o aneddiadau gerllaw, sy'n cynnwys Onllwyn, Blaendulais, Ystradgynlais, Caehopcyn, Aber-craf a Choelbren.

O ran cludiant, mae gan y safle gysylltiadau da. Gellir cael mynediad iddo o'r A4109 ac mae wedi'i leoli'n gyfleus er mwyn ei gysylltu â'r A465 Ffordd Blaenau'r Cymoedd, sef cefnffordd strategol sy'n cysylltu Abertawe yn y de-orllewin â Henffordd yng ngogledd-ddwyrain y rhanbarth. Yn ogystal, mae gan y safle fynediad rheilffordd drwy linell gangen/gludo i'r de sy'n cysylltu Prif Linell De Cymru drwy gilffordd Crymlyn Abertawe.

Mae amrywiaeth o gyfleoedd a chyfyngiadau ar y safle ac o'i amgylch y bydd yn rhaid eu hystyried wrth inni ddatblygu'r cynigion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- llygredd dŵr daear
- gweithfeydd cloddio bas
- tir wedi'i lygru
- newidiadau sylweddol i olwg y safle
- dyfrffosydd sy'n croesi
- cynefinodd rhywogaethau dan warchodaeth Ewropeaidd
- Parc Cenedlaethol
- tir comin
- hawliau tramwy cyhoeddus
- tir cyflogaeth
- llinellau pŵer uwchben
- croesfannau gwastad
- coetir hynafol
- heneb gofrestredig
- llwybr beicio cenedlaethol (i ogledd y safle)
- agosrwydd at anheddau preswylio

Delwedd: *Cynllun Cyfleoedd a Chyfyngiadau*




## Allwedd

- Prif ffyrdd
- Llwybrau beicio cenedlaethol
- Leiniau trydan presennol
- Rheilffordd bresennol
- Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Henebion cofrestredig (o fewn y safle)
- Adeiladau rhestredig
- Hawlau tramwy cyhoeddus
- Mynediad posibl i gerbydau
- Leiniau trydan
- Is-orsaf
- Agosrwydd at sensitifrwydd anheddiad / sŵn
- Croesfannau gwastad / pwyntiau mynediad i'r safle
- Pont dros gwrs dŵr
- Mynediad o'r llwybr beicio
- Mynediad drwy'r rheilffordd bresennol
- Tir serth

## Nodweddion presennol y safle

| | |
|---|---|
| 1 | Tomen orlwytho |
| 2 | Canolfan ddosbarthu Onllwyn |

DS. Mapiwyd holl nodweddion y safle yn fras

| **Cwestiwn 1a:** Yn eich barn chi, pa mor addas yw'r safle arfaethedig ar gyfer Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd? Ticiwch un | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Addas iawn | Addas | Heb benderfynu | Anaddas | Anaddas iawn |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| **Cwestiwn 1b:** Defnyddiwch y lle isod i esbonio'ch ateb i C1a. | |
|---|---|
| | |
| **Cwestiwn 1c:** A oes cyfleoedd eraill y dylem eu hystyried neu gyfyngiadau rydych chi'n meddwl y dylem eu hystyried o hyn ymlaen? | |
| Cyfleoedd: | Cyfyngiadau: |

## Cyfleoedd ar gyfer buddsoddi yn y rheilffyrdd

Mae'r diwydiant rheilffyrdd yn faes ehangu pwysig i Gymru. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwymo i adfywio rhwydwaith y rheilffyrdd drwy ddarparu gwasanaethau a stoc rholio (trenau a cherbydau) newydd, atebion arloesol a rhaglen sylweddol o fuddsoddi mewn gorsafoedd. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i fuddsoddi £800 miliwn o 2023 ymlaen at ddiben sicrhau y bydd 95% o deithiau ar drenau newydd, a bydd mwy na hanner y stoc rholio yn cael eu cyfosod yng Nghymru.

Mae Bargen Sector Rheilffyrdd Llywodraeth y DU (2018) yn pennu ymagwedd newydd sy'n hyrwyddo gweithio mewn partneriaethau rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat i gynyddu arloesedd a chynhyrchiant. Ei nod yw y dylai'r DU gyflenwi manteision technoleg ddigidol newydd a dod yn arweinydd byd ym maes technoleg rheilffyrdd a datgarboneiddio, gan hybu allforion a sgiliau.

Mae'r angen am gyfleuster profi o'r radd flaenaf i gefnogi a chyflymu'r broses o gyflawni'r amcanion strategol hyn wedi cael ei gydnabod yn glir gan Lywodraeth y DU. Wrth i'r trenau newydd a chydrannau eraill gael eu cyflwyno i rwydwaith rheilffordd y DU, rhaid eu profi'n drylwyr cyn eu rhoi ar waith. Ar hyn o bryd, bydd trenau a adeiladir yn y DU yn cael eu cludo'n aml i gyfleusterau profi yn Ewrop, sy'n gost sylweddol. Mae Network Rail yn defnyddio cyfleusterau profi seilwaith yn yr Unol Daleithiau.

Felly, byddai cyfleuster profi yng Nghymru yn lleihau costau diwydiant, yn cyflymu datgarboneiddio ac yn helpu i hwyluso arloesedd, cynyddu sgiliau a hyfforddiant a chreu swyddi yn y DU. Gan gofio'r galw am gyfleusterau profi ledled Ewrop a'r tu hwnt, disgwylir y bydd Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd yng Nghymru hefyd mewn sefyllfa dda i allu denu busnes rhyngwladol.

Rydym wedi comisiynu amlinelliad o achos busnes sy'n nodi amrywiaeth o gyfleoedd posib ar gyfer y Ganolfan Fyd-eang Ragoriaeth Rheilffyrdd. Mae'n dod i'r casgliad bod achos strategol cryf dros gyfleuster newydd sy'n cyfuno profi a storio cerbydau, gyda phrofion seilwaith, cynnal a chadw, dadgomisiynu, hyfforddiant ac ymchwil a chyfleusterau datblygu. Rydym yn cydweithio â phartneriaid mewn awdurdodau lleol a rhanddeiliaid y diwydiant rheilffyrdd i ddatblygu'r cynigion yn fanylach – ochr yn ochr â'r ymgynghoriad cymunedol hwn.

Mae'r cynigion hyn yn cynnig cyfleoedd i ailddefnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu yn y gorffennol, gan gynnal ardal gyflogaeth bwysig i gefnogi twf yn y rhanbarth yn y dyfodol.

- **£36bn o GDP** sy'n cyfateb i oddeutu 2.3 y cant o allbwn economaidd y DU
- **600,000 o swyddi** sy'n cyfateb i 1.7 y cant o'r gyflogaeth genedlaethol
- **£11bn mewn refeniw treth**
- **GVA cyfartalog o £68,900 y swydd** rhyw 50 y cant yn uwch na chyfartaledd y DU
- **2.2 swydd** a gefnogir yn sector cyflenwi rheilffyrdd y DU i bob swydd ar system reilffyrdd y DU


## Y cynigion

Byddai sefydlu'r Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd yn cael ei gyflawni drwy gyfuno'r tair elfen  wahanol.

Byddai'r mynediad presennol i'r safle drwy'r A4109 yn cael ei ddefnyddio a byddai rhwydwaith o ffyrdd mewnol yn cael eu creu er mwyn i staff gael mynediad i'r ganolfan weithredu a'r safle ehangach sy'n gysylltiedig â'r adeilad rheoli a chludo rhwng mannau profi.

Gallai'r tair elfen hyn fod yn weithredol ddydd a nos pe bai angen, yn amodol ar alw'r farchnad a rheolau amgylcheddol i sicrhau y cydymffurfir â'r holl ofynion cyfreithiol a rheoleiddio.

*Delwedd: Cynllun arfaethedig*




## Allwedd

- Prif ffyrdd
- Llwybr beicio cenedlaethol
- Leiniau trydan presennol
- Rheilffordd bresennol
- Rheilffordd arfaethedig

## Nodweddion y safle

| | |
|---|---|
| 1 | Dolen brawf rheilffordd fawr |
| 2 | Dolen brawf seilwaith tunelledd uchel |
| 3 | Adeilad y ganolfan reoli ganolog |
| 4 | Platfform/gorsaf brawf |
| 5 | Man storio cerbydau/cilffyrdd |
| 6 | Canolfan ymchwil a datblygu |
| 7 | Sied cynnal a chadw cerbydau 4-ffordd |
| 8 | Cyfleuster a yrrir gan winsh |
| 9 | Cyfleuster golchi cerbydau un-gyfeiriadol |
| 10 | Tomen orlwytho |

Ar hyn o bryd, rydym yn cynnal ymgynghoriad cynnar ynghylch y cynigion amlinellol. Wrth i'r broses fynd yn ei blaen, bydd ymgynghoriad â phreswylwyr a rhanddeiliaid, ynghyd ag astudiaethau amgylcheddol a thechnolegol manwl, yn helpu i lywio set fanylach o gynigion, i'w cyflwyno fel rhan o'r ymgynghoriad statudol.

1. **Cylch profi rheilffordd allanol cyflymder uchel wedi'i drydanu (6.9km), cylch profi rheilffordd allanol cyflymder isel wedi'i drydanu (4.5km), ac adeilad rheoli ar dir sy'n gysylltiedig â'r mwynglawdd agored.**

Byddai'r cylch allanol yn estyn o amgylch tair ochr perimedr safle Nant Helen (sy'n arwynebedd o 714ha fwy neu lai). Gellid cyflawni cynllun priodol o wrthgloddiau er mwyn cyflawni'r graddiant sy'n ofynnol ar gyfer y cyfleuster cledrau profi. Byddai hyn yn cael ei gyflawni fel rhan ychwanegol o'r strategaeth adfer y mae Celtic Energy yn ymgymryd â hi.

Byddai'r cylch allanol yn ei gwneud hi'n bosib cynnal profion ar drenau cludo teithwyr hyd at gyflymder uchaf o 110 mya.

Byddai'r cylch mewnol yn ei gwneud hi'n bosib cynnal profion ar seilwaith a chyfarpar rheilffyrdd, megis y cledrau, trawstiau, adeiledddau (megis pontydd a thwneli), platfformau ac arwyddion a chyfarpar cyfathrebu.

Byddai adeilad rheoli aml-lawr yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer gweithgareddau rheoli profion ac yn cynnig canolfan ar gyfer staff gweithredu.

Byddai'r ddau gylch yn cysylltu â'r llinell gangen bresennol i'r de. Disgwylir y byddai stoc rholio'n cael eu symud at ddibenion profi gan ddefnyddio'r llinell gysylltu hon oherwydd hynny fyddai'r ffordd o fwyaf effeithiol o gludo. Gellid hefyd symud stoc rholio drwy'r rhwydwaith ffyrdd strategol, gan ddibynnu ar angen a math.

2. **Canolfan ymchwil a gweithrediadau ar dir sy'n gysylltiedig â'r olchfa**

Byddai'r ganolfan ymchwil a gweithrediadau yn darparu defnydd cyfunedig, gan integreiddio'r cylchoedd profi ar y tir sy'n gysylltiedig â'r olchfa (gan gynnwys arwynebedd o 58ha fwy neu lai). Byddai'n sicrhau cyfleoedd ar gyfer: addysg; ymchwil a datblygu; swyddfeydd a chynadledda; storio; gwaith cynnal a chadw a digomisiynu stoc rholio; a seilwaith y rhwydwaith.

Byddai gan y ganolfan gysylltiadau rheilffordd â'r cylchoedd profi a'r llinell gangen bresennol i gyfeiriad y de-orllewin. Byddai hyn yn hwyluso symudiad mewnol stoc rholio at ddibenion profi. Byddai hefyd yn cysylltu â'r safle yn ehangach a chanolfan rheoli'r cylch profi drwy ffyrdd mynediad mewnol at ddefnydd staff gweithredu.

Byddai'r ganolfan yn darparu cilffyrdd ar gyfer hyd at 100 o stoc rholio mewn storfa oer (heb gyflenwad trydan) a hyd at 280 o stoc rholio mewn storfa gynnes (â chyflenwad trydan), adeilad â dwy gilffordd rheilffordd ar gyfer dadgomisynu stoc rholio ac adeilad â phedair cilffordd at ddibenion cynnal a chadw stoc rholio, yn ogystal â man i brofi stoc rholio yn eu hunfan. Byddai 10 cilffordd rheilffordd hefyd oddi ar y llinell gludo bresennol i helpu i reoli stoc rholio sy'n dod i'r safle at ddibenion profi.

3. **Trac profi seilwaith rheilffyrdd llinellol cyflymder isel mecanyddol (555 o fetrau)**

Byddai'r rhan syth hon o gledrau profi yn defnyddio system fecanyddol sy'n llusgo cerbydau â phwli, yn hytrach na cherbydau a yrrir a fyddai'n gweithredu ar y cylchoedd profi.

Byddai'r cledrau profi hyn yn cael eu cyd-leoli â'r ganolfan ymchwil a gweithrediadau ar dir sy'n gysylltiedig â'r olchfa.

Byddai ganddo hyd o 555m a lled o 15m fwy neu lai a byddai naill ai mewn adeilad neu mewn clostir â ffin acwstig.

| **Cwestiwn 2a:** Beth yw'ch barn am ein cynigion presennol ar gyfer cydrannau allweddol y Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd? | | |
|---|---|---|
| Cylchoedd profi trenau: | Y ganolfan ymchwil a gweithrediadau: | Y cledrau profi llinellog: |
| **Cwestiwn 2b:** A oes unrhyw gyfleusterau eraill y dylem fod yn eu hystyried yn eich barn chi? | | |

**Datblygiad cysylltiedig**
Byddai cyflawni pob cydran o'r Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd yn arwain at ddatblygu cysylltiedig, gan gynnwys gwrthgloddiau, amwynderau ac isadeiledd diogelwch, ffyrdd mynediad, mannau parcio ceir, draenio a thirlunio.

| **Cwestiwn 3:** A oes gennych sylwadau neu bryderon ynghylch y gwaith datblgu cysylltiedig a amlinellwyd uchod? |
|---|
| |

## Ystyriaethau amgylcheddol

Mae'n bwysig deall yr amgylchedd lleol yn llwyr fel y gellir gwneud newidiadau i'r dyluniad i osgoi effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd. Os na fyddai'n bosib osgoi effeithiau'n gyfan gwbl, mae meddu ar wybodaeth gadarn am yr amgylchedd lleol yn golygu y gellir lliniaru'n briodol i leihau unrhyw effeithiau hirdymor.

Bydd angen cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer y prosiect a fydd yn cael ei baratoi a'i gyflwyno i gefnogi'r cais cynllunio. Ar hyn o bryd, cynigir y bydd yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn cynnwys nifer o faterion amgylcheddol gwahanol, gan gynnwys bioamrywiaeth, sŵn a dirgryniad, ansawdd aer, traffig a chludiant, hydroleg a llifogydd, amgylchiadau'r tir, treftadaeth ddiwylliannol, tirwedd a'r effaith weledol, iechyd a lles a newid yn yr hinsawdd.

Bydd cynnwys a chwmpas yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn destun ymgynghoriad â'r Awdurdodau Lleol. Fodd bynnag, yn ystod camau cynnar y prosiect, cynhelir arolygon amgylcheddol cychwynnol i nodi cyfyngiadau amgylcheddol a chyfleoedd posib. Bydd yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn nodi'r effeithiau sylweddol (andwyol a buddiol) y bydd gan weithgareddau adeiladu a gweithredol y prosiect ar yr amgylchedd lleol a'r boblogaeth leol.

Pan fydd yr amgylchiadau amgylcheddol presennol ar draws y safle wedi'u cadarnhau ac ar ôl gwnaed asesiad o'r effeithiau sylweddol tebygol, caiff mesurau lliniaru eu cynnig. Mae'r rhain yn fesurau y gellid eu hystyried i leihau'r effeithiau andwyol neu gryfhau'r effeithiau buddiol.

| |
|---|
| **Cwestiwn 4a:** A oes gennych sylwadau ynghylch yr ystyriaethau amgylcheddol a amlygwyd yn yr adran hon? |

| |
|---|
| **Cwestiwn 4b:** A oes unrhyw ystyriaethau amgylcheddol eraill y dylem ni eu hystyried yn eich barn chi? |

## Ystyriaethau cymdeithasol ac economaidd

Byddai'r Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd yn gatalydd i fuddsoddiad yn y diwydiant rheilffyrdd yng Nghymru, gan gynnig cyfleuster ymchwil, datblygu a phrofi o'r radd flaenaf yn y DU. Bydd y cyfleuster profi seilwaith sydd wedi'i ymgorffori yn yr uwchgynllun sy'n dod i'r amlwg yn unigryw yn Ewrop.

Mae'n bosib bod y budd economaidd i Gymru'n sylweddol. Os caiff pob elfen o'r cyfleuster ei gwireddu, gallai'r safle gynnig dros 150 o swyddi pan fydd yn gwbl weithredol. Ymhen amser, efallai y bydd cyfleoedd i ddenu gweithgareddau ychwanegol i'r safle a allai gynyddu cyfleoedd cyflogaeth ymhellach. Byddai'r cyfleusterau'n denu ymwelwyr rheolaidd i'r ardal wrth i beirianwyr a thimau cymorth ddefnyddio'r safle ar sylfaen fesul prosiect gan ddarparu hwb posibl i'r diwydiannau gwasanaethau lleol.

Byddai angen amrywiaeth o rolau yn Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd, er y byddai'r rhai o'r rhain yn arbenigol iawn a byddai angen sgiliau nad ydynt yn bresennol yn y farchnad lafur yn ne Cymru ar hyn o bryd. Rhagwelir y gallai'r safle fod yn ganolbwynt yn y DU ar gyfer hyfforddiant gweithredol, gan gynnig cyfleoedd i bobl ddatblygu'r sgiliau y mae eu hangen arnynt ar gyfer gyrfa yn y diwydiant rheilffyrdd.

Gallai presenoldeb y cyfleuster fod yn gatalydd i ddatblygu galluoedd ymchwil newydd yng Nghymru yn y dyfodol, yn enwedig mewn cydweithrediad â darparwyr addysg uwch. O ganlyniad, mae potensial i ddatblygu rhaglenni ymchwil ac addysg sy'n cefnogi datblygiad ehangach y diwydiant rheilffyrdd yng Nghymru, gan greu cronfa o weithwyr medrus mewn gweithgareddau cysylltiedig.

Byddai adeiladu'r cyfleuster yn arwain at effaith economaidd leol gadarnhaol ynddo'i hun a gallai olygu bod angen cyflogi 800 blwyddyn gwaith unigolyn gyflawni – felly pe bai'r prosiect yn cymryd pedair blynedd i'w gwblhau, byddai'n cyflogi 200 o weithwyr amser llawn.

Yn hollbwysig, mae'r prosiect yn cynrychioli cyfle prin i greu swyddi newydd, parhaol o safon yn y rhan hon o de Cymru.  Yn hanesyddol, mae'r diwydiant mwyngloddio, ynghyd â diwydiant trwm yn gyffredinol, wedi bod yn sail i economïau de Cymru. Mae'r diwydiannau hyn bellach yn dirywio.

Byddai gwireddu'r Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd yn gwneud cyfraniad o bwys at lenwi bwlch y diwydiant trwm sy'n cael ei golli yn y rhanbarth, gan helpu i gynnal cymunedau presennol a sicrhau eu bod yn gallu wynebu newidiadau'r dyfodol yn gydnerth.

| |
|---|
| **Cwestiwn 5a:** A oes gennych sylwadau ynghylch y buddion cymdeithasol-economaidd a restrir uchod? |

| |
|---|
| **Cwestiwn 5b:** A oes unrhyw fuddion cymdeithasol-economaidd y byddech chi'n dymuno i ni eu harchwilio wrth inni ddatblygu'r cynigion? |


## Camau nesaf

Hoffem gael eich barn chi am y cynigion rydym wrthi'n eu datblygu a'r materion allweddol rydych chi am inni eu hystyried wrth inni ddatblygu'r cynlluniau ar gyfer Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd.

Gallwch fynegi'ch barn drwy lawrlwytho'r ffurflen adborth, a fydd ar gael ar ffurf copi caled yn y digwyddiadau galw heibio cyhoeddus neu y gellir ei lawrlwytho yn [https://gov.wales/canolfan-fyd-eang-rhagoriaeth-rheilffyrdd](https://gov.wales/canolfan-fyd-eang-rhagoriaeth-rheilffyrdd) - erbyn 7 Hydref 2019.

Byddwn yn ystyried yr holl adborth a dderbynnir ac yn ei ddefnyddio ynghyd â chanlyniadau astudiaethau technegol ac amgylcheddol i lywio'r uwchgynllun wrth iddo ddatblygu.

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad statudol ynghylch y cynigion manwl cyn cwblhau ein cynlluniau a chyflwyno unrhyw geisiadau cynllunio.




## Rhestr Geirfa

| | |
|---|---|
| Cilffordd rheilffordd | hyd y cledrau lle gellir storio trenau |
| Storfa oer | Cilffyrdd a ddarperir heb gyflenwad trydan |
| Storfa gynnes | mae cilffyrdd yn darparu cyflenwad trydan fel y gellir gweithredu systemau mecanyddol a thrydanol - e.e. goleuadau, socedi trydan a systemau rheoli |
| Stoc rholio | cyfarpar cludiant sy'n symud ar olwynion - rhai hunan-redeg (megis tryciau a threnau) neu rhai a lusgir (megis ôl-gerbydau a choetsis) |

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**Cwestiwn 6a** Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r *Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd* yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 6b** A fyddech cystal ag esbonio hefyd sut y credwch y gellid llunio'r cynigion neu eu newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu ragor o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 6c**: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

| |
|---|
| |

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐